Dinistrio'r Ddau Dŵr yn Efrog Newydd

(gofal / caredigrwydd / cydweithio / dysgu rhannu)

Cyhoeddodd y Parchedig Daniel Matthews ei fod am ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd wedi treulio'r rhan helaethaf o'i weinidogaeth yn Eglwys y Drindod, Efrog Newydd, a phan glywodd y gynulleidfa'r newyddion roedden nhw'n drist iawn. Y bore hwnnw ym mhorth yr eglwys yr un oedd cwestiwn pob un o'r aelodau,

"Beth am i chi aros am flwyddyn neu ddwy eto?"

"Pam na wnewch chi ddod yn weinidog rhan-amser i ni?" oedd cwestiwn un arall.

Roedd ambell un o'r gynulleidfa yn fwy hy, "Dyn ifanc ydych chi, mae gennych flynyddoedd maith i fynd eto. Arhoswch yn weinidog arnon ni am bum mlynedd eto!"

"Na, rydw i wedi dod i benderfyniad," meddai'r gweinidog. "Mae yna rai pethau sy'n barhaol fel y ddau dŵr yma o'n blaenau," meddai gan bwyntio at ddau dŵr y Ganolfan Byd Masnach, "ond mae yna bethau eraill sy'n mynd a dod."

Roedd y tyrau hyn yn sefyll yn gadarn ond ryw 100 llath o ddrws yr eglwys.

Aeth pawb eu ffyrdd eu hunain ac aeth y gweinidog yn ôl i mewn i'r eglwys i hel meddyliau. Tybed a oedd o'n gwneud y peth iawn yn ymddeol?

Ymhen deuddydd, 11 Medi 2001, roedd y tyrau wedi'u dinistrio'n llwyr gan ddwy awyren oedd wedi'u herwgipio gan derfysgwyr! Lladdwyd 2,819 o bobl yn y difrod ond, yn rhyfedd iawn wnaed dim niwed o gwbl i Eglwys y Drindod, dim ond bod ychydig o lwch y tyrau yng ngardd yr eglwys. Yn ystod yr wythnosau dilynol daeth yr Eglwys yn fangre i bobl o bob rhan o'r byd. Dyma'r unig lecyn diogel yng nghanol y sbwriel a'r llanast. Bu aelodau'r eglwys a'r gweinidog yn brysur ryfeddol yn ystod y dyddiau'n dilyn y gyflafan. Byddai rhai pobl yn troi i mewn i'r eglwys i weddïo'n dawel, eraill yn dod i chwilio am gyngor ac i ofyn cwestiynau anodd a dyrys.

"Mi gefais i un wraig heddiw, oedd wedi colli mab yn y dinistr, yn gofyn ble roedd Duw y diwrnod hwnnw. Ac roedd hi'n mynnu cael ateb gen i," meddai'r gweinidog.

Weithiau byddai pobl oedd wedi colli anwyliaid yn dod

heibio ac yn gofyn i'r gweinidog eu dysgu i weddïo ac i ddarllen y Beibl.

Roedd aelodau'r eglwys yn gweithio'n ddygn hefyd. Byddai'r eglwys ar agor ddydd a nos i geisio rhoi help i bob un oedd yn galw. Roedd byrddau o wahanol nwyddau ar gael. Roedd rhai byrddau yn llawn o blancedi, eraill efo pob math o fwydydd a diodydd, a'r lleill efo dilladau ac esgidiau. Roedd yr eglwys yn brysur fel cwch gwenyn a phobl ddydd a nos yn mynd a dod. Yn ystod oriau'r hwyr byddai rhai o'r dynion tân a'r heddlu yn dod i mewn i'r eglwys i gael pryd o fwyd ac awr o gwsg cyn ailddechrau ar eu tasgau.

Ond yr hyn oedd wedi codi calon y gweinidog oedd bod llawer o'r bobl oedd wedi cael eu hachub o'r tyrau yn barod i weithio'n galed dros deuluoedd y rhai oedd wedi colli eu bywydau. Doedd rhai ohonynt heb weddïo na darllen y Beibl ers dyddiau ysgol ond bellach roedden nhw'n barod i ofyn am gyngor gan y gweinidog ac aelodau'r eglwys. Daeth llawer ohonyn nhw'n Samariaid trugarog ac yn ddilynwyr i Iesu Grist. "Efallai," meddai'r gweinidog, na cha i amser i ymddeol wedi'r cwbl!"

Adnod: "Prun o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?" Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai Iesu wrtho, "Dos a gwna dithau yr un modd." Luc 10:36 a 37

Gweddi: Gwna fi, o Dduw, yn Samariad trugarog yn fy mro fy hun. Amen.

Trafod:

- Chwiliwch am hanes yr hyn a ddigwyddodd yn Efrog Newydd ar 11 Medi 2001.
- Beth, yn eich barn chi, yw gwaith eglwys neu gapel?